

Enghraifft o gynllun gwers

Strategaethau i gefnogi datblygiad iaith Gymraeg y dysgwyr

Geirfa Allweddol: *blaid, chwythu, mochyn, moch, adeiladu, brigau, pren, briciau, gwellt, crochan, cryf, gwan.*

Ffocws iaith: Prif nod y wers yw helpu'r plant i adnabod ac defnyddio geirfa allweddol sy'n dod o stori'r *Tri Mochyn Bach*. Rwy'n awyddus i greu gwers sy'n ymarferol ac yn hwyl, lle mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd i wrando, ailadrodd ac ymarfer y geiriau mewn ffordd sy'n teimlo'n naturiol iddyn nhw.

Gweithgareddau Cynhesu

1. I gynhesu'r plant, byddaf yn defnyddio tedi bach i'w basio o gwmpas y cylch. Pan fydd y tedi'n glanio gyda rhywun, byddan nhw'n enwi gair o'r stori. Mae hyn yn ffordd hawdd o gael y plant i ymgysylltu heb bwysau, ac mae'n helpu i osod naws bositif ar ddechrau'r wers. Mae hefyd yn ffordd dda o asesu pa eirfa maen nhw eisoes yn ei hadnabod a'i chofio.

Cyflwyniad

2. I ddechrau bydd y plant yn eistedd ar y mat i wrando ar y stori *Y Tri Mochyn Bach* a byddwn yn canu'r gân "*Amser stori yw hi nawr*". Mae hyn bob amser yn helpu i dawelu'r dosbarth ac yn rhoi signal clir bod yn amser gwrando. Mae ymchwil yn dangos bod gwrando ar ganeuon yn gallu helpu i ddatblygu ynganu, geirfa, sgiliau gwrando a siarad. (Smith a Conti, 2016).

3. Byddaf yn defnyddio propiau, sef ffigurau bach o'r moch, y blaid a'r tai. Bydd rhai o'r plant yn dod i'r blaen wrth i fi ddarllen y stori a byddwn ni'n defnyddio'r propiau i gymryd rhan yn y stori, e.e. chwythu ar y tŷ. Mae ymchwil yn dangos bod defnyddio propiau'n lleihau'r llwyth gwybyddol: mae propiau'n gallu helpu'r plant i gysylltu'r geiriau â delweddau, sy'n gwneud yr eirfa'n haws iddyn nhw ei chofio (Goldhawk, 2026). Hefyd, mae plant wrth eu boddau'n cael rhywbeth i'w ddal neu ei symud, ac mae hyn yn gallu dod â'r stori'n fwy byw.

4. Wrth adrodd y stori, byddaf yn gofyn cwestiynau syml ac agored i wirio dealltwriaeth ac annog y plant i feddwl am beth sy'n digwydd. Byddaf yn ailadrodd cwestiynau pan fo angen, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan. Cwestiynau i ofyn:

- *Beth adeiladodd y mochyn cyntaf?*
- *Beth adeiladodd yr ail fochyn?*
- *Beth adeiladodd y trydydd mochyn?*
- *Pwy oedd eisiau chwythu'r tai i lawr?*
- *Beth wyt ti'n meddwl sy'n digwydd nesaf?*
- *Pa dŷ oedd y cryfaf?*
- *Pa dŷ oedd y gwannaf?*

Mae'r cwestiynau hyn yn gallu helpu'r plant i ddefnyddio'r eirfa mewn cyd-destun ac yn eu hannog i siarad yn hyderus (Meldicott, 2018).

Gweithgareddau Addysgu a Dysgu

5. Ar ôl y stori, bydd y plant yn symud i weithgaredd sy'n canolbwyntio ar ddrilio. Byddwn yn chwarae gêm loto geirfa mewn grwpiau bach o tua pump. Bydd pob plentyn yn cael mat gyda lluniau, ac wrth i mi ddangos cardiau, byddan nhw'n gorfod dweud:

- Oes ... gyda ti?
- Oes / Nac oes.

Y nod yw bod y gêm hon yn ffordd o ailadrodd yr eirfa heb i'r plant sylwi eu bod yn dysgu. Mae ymchwil yn cadarnhau bod chwarae gemau yn gallu rhoi cyfle i ddysgwyr ddefnyddio'r iaith mewn ffordd hwyliog heb bwysau (Smith, 2022).

Wrth iddyn nhw fagu hyder yn ystod y gêm, byddaf yn annog y plant mwyaf hyderus i ymestyn eu hatebion, e.e. *“Mae gen i'r llun o'r tŷ brics ac mae'n gryf iawn.”*

6. Wedyn, byddaf yn rhoi taflen waith paru iddyn nhw. Mae'r daflen wedi'i gwahaniaethu mewn pedair ffordd, gyda'r bwriad bod pawb yn cael tasg sy'n addas iddyn nhw. Bydd rhai plant yn paru lluniau â geiriau, tra bydd eraill yn ysgrifennu'r geiriau neu hyd yn oed brawddegau syml. Mae hyn yn rhoi cyfle i mi asesu eu dealltwriaeth yn ffurfiannol mewn ffordd dawel ac ymarferol.

Clo

7. I orffen y wers, byddwn yn chwarae gêm paru fel dosbarth cyfan. Byddaf yn defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i ddangos lluniau, a bydd y plant yn cymryd eu tro i ddod i'r blaen i baru'r gair cywir. Mae hyn yn ffordd o adolygu'r eirfa unwaith eto ac yn gadael y wers ar nodyn cadarnhaol. Mae'r plant fel arfer yn mwynhau'r elfen gystadleuol ysgafn, ac mae'n ffordd o weld faint maen nhw wedi'i gofio.


Adnoddau

- Propiau stori (ffigrau bach o'r moch, y blaid a'r tai)
- Cardiau loto
- Matiau lluniau
- Taflenni gwaith gwahaniaethol
- Llyfr *Y Tri Mochyn Bach*
- Tedi ar gyfer rhannu geirfa ar y dechrau.

Adnoddau

Nod- Paru geirfa gyda llun drwy ffurfio dros ddotiau'n ofalus.


Tri mochyn bach



Tri
Mochyn

Blaidd

Tŷ gwellt




Tŷ brigau

Tŷ
briciau

Crochan

Nod- Paru geirfa gyda llun drwy dan-gopio.


Tri mochyn bach



Tri Mochyn

Blaidd

Tŷ gwellt





Tŷ brigau

Tŷ briciau

Crochan

Nod: Paru geirfa drwy gopïo oddi ar y bwrdd gwyn.

Tri mochyn bach



Nod: Ysgrifennu brawddeg syml am bob llun yn dilyn trefn y stori.

Tri mochyn bach

Llyfryddiaeth

Conti, G. and Smith, S. (2019) *Breaking the Sound Barrier: teaching language learners how to listen*. Cyhoeddwyd yn annibynnol.

Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2019) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> (Cyrchwyd: 4 Mai 2026).

Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg (2022) *Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg*. Ar gael ar: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-05/cynllun-y-gweithlu-cymraeg-mewn-addysg> (Cyrchwyd: 4 Mai 2026).

Goldhawk, A. (2026) *The Language Teaching Toolkit: 150+ activities for getting languages to stick*. Ar gael ar: Perlego (Cyrchwyd: 23 Hydref 2026).

Medlicott, M. (2018) *Storytelling and Story-Reading in Early Years: How to Tell and Read Stories to Young Children*. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Smith, S. (2022) *Becoming an Outstanding Languages Teacher*. Rhydychen: Routledge.